**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | H M Morris |
| P M Black | C A Holley | D Phillips |
| J E Burtonshaw | P R Hood-Williams | C L Philpott |
| M C Child | L James | S Pritchard |
| J P Curtice | O G James | A Pugh |
| N J Davies | Y V Jardine | C Richards |
| A M Day | J W Jones | K M Roberts |
| P Downing | L R Jones | B J Rowlands |
| C R Doyle | M H Jones | M Sherwood |
| M Durke | M Jones | P B Smith |
| C R Evans | E J King | R V Smith |
| V M Evans | E T Kirchner | A H Stevens |
| W Evans | M A Langstone | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | H Lawson | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | A S Lewis | G J Tanner |
| S J Gallagher | M B Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | W G Lewis | W G Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| K M Griffiths | I E Mann | G D Walker |
| J A Hale | P M Matthews | L V Walton |
| D W Helliwell | P N May | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins, D H Hopkins, P K Jones, S M Jones, P Lloyd, J A Raynor a/ac M Thomas

---

**133. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fuddiannau i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd W G Lewis gysylltiad personol â chofnod rhif 138 "Trefniadau Derbyn 2023-2024".

2) Datganodd y Cynghorydd C E Lloyd gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 141 "Taliad Cydnabyddiaeth Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

3) Datganodd Ben Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 141 "Taliad Cydnabyddiaeth Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

**134. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

**135. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Y Cynghorydd Cymuned Phil Crayford - Y Pwyllgor Safonau**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Cynghorydd Cymuned Phil Crayford wedi bod yn Gynrychiolydd Cymuned/Tref ar y Pwyllgor Safonau ers 5 Hydref 2012. Daw ei gyfnod yn y swydd i ben yn yr Etholiad Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022.

Ar ran y cyngor, diolchodd i'r Cynghorydd Cymuned Crayford am ei wasanaeth.

**b) Jamborî Sgowtiaid y Byd – Corea 2023**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol y saith (7)Sgowt Fforio o Abertawe a ddewiswyd yn ddiweddar i gynrychioli Cymru yn 25$^{ain}$ Jamborî Sgowtiaid y Byd yng Nghorea yn ystod 2023. Roeddent wedi cymryd rhan mewn proses ddethol drylwyr o 250 cyn cael eu cwtogi i 72 ledled Cymru.

Mae ein Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Huw Evans yn arbennig o falch gan fod ei ddau blentyn (Branwen a Gruff) ymhlith y 7 o Abertawe sydd wedi cael eu dewis. Dymunodd bob lwc iddynt gyda'r gwaith codi arian.

## 136. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Skyline Swansea

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y datganiad diweddar gan Skyline Swansea yn datgan eu bod yn bwriadu bod ar agor yn gynnar yn 2025.

### b) Digwyddiadau yn yr Arena

Crybwyllodd Arweinydd y Cyngor y digwyddiadau rhagorol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr Arena a hefyd y digwyddiadau gwych sydd ar ddod.

### c) Cynghorwyr nad ydynt yn sefyll am ailetholiad ar 5 Mai 2022

Talodd Arweinydd y Cyngor ac Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol deyrnged i'r Cynghorwyr hynny a oedd wedi dewis peidio â cheisio cael eu hailethol yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022.

Diolchwyd iddynt am wasanaethu eu cymunedau a phreswylwyr Abertawe yn ystod cyfnod eu swyddi fel Cynghorwyr.

| **Cynghorydd** | **Cyngor** | **Cyfnod y Swydd** | | **Yr Arglwydd Faer, Aelod y Cabinet, Aelod Llywyddol** |
|---|---|---|---|---|
| | | **O** | **I** | |
| June Burtonshaw | CDA<br>DASA | 05/05/1983<br>04/05/1995 | 31/3/1996<br>Presennol | Yr Arglwydd Faer 2002/03<br>Cyn-aelod y Cabinet |
| Mark Child | DASA | 06/05/1999 | Presennol | Yr Arglwydd Faer 2020/21<br>Aelod y Cabinet |
| Nick Davies | DASA | 03/05/2012 | Presennol | |
| Will Evans | DASA | 01/05/2008 | Presennol | Cyn-aelod y Cabinet |
| Peter Jones | DASA | 05/05/2017 | Presennol | |
| Myles Langstone | DASA | 05/05/2017 | Presennol | |
| Clive Lloyd | DASA | 03/05/2012 | Presennol | Cyn-Aelod y Cabinet a Chyn-ddirprwy Arweinydd y Cyngor |
| Irene Mann | DASA | 05/05/2017 | Presennol | |
| Jennifer Raynor | DASA | 03/05/2012 | Presennol | Cyn-aelod y Cabinet |
| Christine Richards | DASA | 01/05/2008 | Presennol | Cyn-aelod y Cabinet a Chyn-ddirprwy Arweinydd |
| Mary Sherwood | DASA | 05/05/2017 | Presennol | Cyn-aelod y Cabinet |
| Paulette Smith | DASA | 01/05/2008 | Presennol | |
| Gareth Sullivan | CBDLI<br>DASA | 07/05/1987<br>04/05/1995 | 31/03/1996<br>Presennol | Yr Arglwydd Faer 2008/09<br>Cyn-aelod y Cabinet |
| Gloria Tanner | DASA | 03/05/2012 | Presennol | |
| Des Thomas | CBA<br>CDA<br>CSGM<br>DASA | 04/05/1972<br>01/04/1974<br>01/11/1979<br>04/05/1995 | 31/03/1974<br>05/05/1976<br>31/03/1996<br>Presennol | Yr Arglwydd Faer 1996/97<br>Aelod Llywyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mark Thomas | DASA | 03/05/2012 | Presennol | Aelod y Cabinet |
| Linda Tyler-Lloyd | DASA | 03/05/2012 | Presennol | |

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| DASA | Dinas a Sir Abertawe |
| CBDLl | Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw |
| CBA | Cyngor Bwrdeistref Abertawe |
| CDA | Cyngor Dinas Abertawe |
| CSGM | Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg |

## 137. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 138. Trefniadau Derbyn 2023-2024.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn gofyn am benderfyniad ar y Trefniadau Derbyn ar gyfer Ysgolion a gynhelir ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-2024.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2023-2024 ar gyfer dosbarthiadau meithrin fel a nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2023-2024 ar gyfer dosbarthiadau derbyn fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

3) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2023-2024 ar gyfer Blwyddyn 7 fel a nodir yn Atodiad C yr adroddiad.

4) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2023-2024 ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn fel a nodir yn Atodiad Ch yr adroddiad.

5) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn/meini prawf derbyn arfaethedig ar gyfer 2023-2024 ar gyfer dosbarthiadau'r chweched yn Atodiad D yr adroddiad.

6) Cymeradwyo'r Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn Atodiad Dd yr adroddiad.

7) Nodi'r niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, fel a nodir yn Atodiad E yr adroddiad.

## 139. Penodi Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022 a phenodi 2 Aelod Lleyg arall i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Penderfynwyd:**

1) Penodi Gordon Anderson yn Aelod Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2) Penodwyd Phil Sharman yn Aelod Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3) Y Cyfnod yn y Swydd i'r ddau oedd 24 Mai 2022 tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027.

**140. Ymestyn Cyfnod Swydd Aelod Lleyg (Cyfetholedig) Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio ailbenodi Paula O'Connor yn Aelod Lleyg Annibynnol (Cyfetholedig) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd ychwanegol.

**Penderfynwyd:**

1) Ailbenodi Paula O'Connor yn Aelod Lleyg Annibynnol (Cyfetholedig) o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am un cyfnod olynol arall yn y swydd.

2) Daw ei Chyfnod yn y Swydd i ben yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027.

**141. Tâl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cydnabod ehangder a chwmpas cynyddol rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ac argymhellodd y dylai cydnabyddiaeth briodol, yn unol â'r cyfrifoldeb hwnnw, fod yn gyson â'i chronfeydd partner ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru a rolau Cadeiryddion pwyllgorau eraill o fewn y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Y caiff cwmpas ac ehangder cyfrifoldeb cynyddol rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn eu cydnabod.

2) Y telir Cyflog Ychwanegol i Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn sy'n cyfateb i Uwch Gyflog Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) i Gadeirydd Pwyllgor gyda'r symiau ychwanegol (dros Gyflog Sylfaenol) i'w talu gan y Gronfa Bensiwn fel yr amlinellir ym Mharagraff 6.1 o'r adroddiad.

**142. Adolygiad o Lawlyfr Cynghorwyr - Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo Adran D y Llawlyfr Cynghorwyr a adolygwyd – Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022.

**Penderfynwyd:**

1) Y byddai "Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith a Manylebau Person Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) - Mehefin 2021" a Disgrifiadau Rôl penodol Cyngor Abertawe fel y'u nodir yn Atodiadau A a B yn cael eu mabwysiadu fel Adran D o Lawlyfr y Cynghorwyr.

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddaru Adran D Llawlyfr y Cynghorwyr er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn gyson â chyhoeddiadau CLlLC yn y dyfodol.

**143. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r diwygiadau a wnaed gan y Swyddog Monitro i Gyfansoddiad y cyngor yn dilyn cychwyn adrannau penodol o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a newidiadau diweddar i'r strwythur uwch-reoli.

**144. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

Ni chafwyd cwestiynau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.51 pm

**Cadeirydd**